Camwahaniaethu yn y gweithle Dim mwy

Bellach, mae'r gyfraith yn golygu nad oes rhaid i chi ddioddef diflastod o achos eich cyfeiriadedd rhywiol. Byth eto.

Stonewall

Gadewch i ni wybod am y dyddiau a fu

Pan ddiflaswyd bywyd Shirley fel athrawes gan ddisgyblion homoffobaidd, dywedodd ei phennaeth wrthi y byddai'n rhaid iddi "ddiodde'n dawel". Bellach, mae hynny'n anghyfreithlon.

Pan sylweddolodd Peter nad oedd ei yrfa fel gweithiwr iechyd yn symud ymlaen, gwyddai mai'r rheswm oedd y ffaith ei fod yn hoyw. Sut? Roedd ei reolwr yn ei fwlio. Bellach, mae hynny'n anghyfreithlon.

Pan wrthodwyd tocyn teithio i Lisa ar gyfer ei phartner, er bod ei chytundeb yn addo teithio am ddim ar gyfer ei "phartner neu ddibynyddion", y rheswm oedd bod ei phartner yn fenyw. Bellach, mae hynny'n anghyfreithlon.

Mae'r driniaeth mae dynion hoyw, lesbiaid a phobl deurywiol wedi gorfod ei ddioddef o achos eu cyfeiriadedd rhywiol – diswyddiadau, aflonyddu, llai o fanteision, diffyg dyrchafiad – bellach drosodd. Wedi dod i ben. Yn anghyfreithlon.

Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r gyfraith.

O dan y cyfreithiau hyn, mae tri math o driniaeth annheg nad oes angen i chi eu dioddef bellach yn y gweithle.

Camwahaniaethu uniongyrchol

Mae unrhyw beth sy'n iawn i weithwyr strêt bellach yn iawn i chi. Os yw'n dderbyniol i bobl strêt ddal dwylo yn y gwaith, er enghraifft, yna gallwch chi wneud hynny hefyd. Yn amlwg, os nad yw pobl strêt yn cael ei wneud, mae hynny'n berthnasol i chi hefyd.

Mae un o bob 25 person lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn credu eu bod wedi cael eu diswyddo o achos eu cyfeiriadedd rhywiol. Nid oes rhaid ei ddioddef mwyach.

Camwahaniaethu anuniongyrchol

Mae hyn yn golygu na all eich cyflogwr ddosbarthu manteision – buddiannau, beth bynnag yr ydych yn eu galw – i weithwyr strêt, heb i chi allu eu mwynhau hefyd. Os gwahoddir partneriaid pobl strêt i bartïon gwaith, mae croeso i'ch partner chi hefyd. Dim dadl.

Aflonyddu

Os yw cyflogwyr neu gydweithwyr yn credu y medrant eich poenydio yn y gwaith drwy greu awyrgylch cyffredinol na fyddai unrhyw berson lesbiaidd, hoyw na deurywiol eisiau bod ynddo, mae'n bryd iddynt ailfeddwl.

Hyd yn oed os nad ydych allan yn y gwaith, nid oes yn rhaid i chi ei ddioddef bellach.

Mae un o bob pump person lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn credu eu bod wedi dioddef aflonyddu o achos eu cyfeiriadedd rhywiol. Nid oes yn rhaid iddyn nhw ei ddioddef bellach chwaith.

Eithriadau

Crefydd Gyfundrefnol

Mewn rhai eithriadau prin, fe all cyflogwyr o fewn crefyddau cyfundrefnol barhau i wrthod cyflogi pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, os yw yn erbyn eu argyhoeddiad crefyddol.

Ond mae'r llysoedd wedi dweud y bydd hyn yn berthnasol mewn nifer bychan iawn o achosion, megis offeiriaid neu imamiaid. Os ydych yn gweithio mewn ysgol ffydd neu ar gyfer elusen grefyddol, rydych yn cael eich amddiffyn. Ac ni allwch gael eich trin yn llai teg os ydych eisoes yn eich swydd.

Manteision ar gyfer cyplau priod

Mewn rhai achosion, ni fydd pensiynau a rhai manteision ariannol ar gyfer partneriaid priod (strêt) ar gael yn awtomatig ar gyfer partneriaid hoyw. Ond mae cyflogwyr da eisoes yn darparu rhain.

Serch hynny, bydd yn rhaid trin cyplau hoyw sydd yn uno mewn partneriaeth sifil yr un fath â chyplau priod, a bydd modd iddynt gael yr hawliau pensiynau hyn.

Anghenion Swyddogaethol

Yn ddamcaniaethol, efallai bod ambell swydd lle bo rhaid i chi fod yn strêt (neu lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol) er mwyn medru ei wneud yn iawn. Ar hyn o bryd, gall neb feddwl am enghraifft.

Felly, beth ydych chi'n mynd i wneud am y peth?
Oes modd i chi siarad gyda'r un sy'n eich aflonyddu?
A fyddai modd i chi esbonio pam eu bod yn achosi poen i chi?

Os nad yw'n bosibl, a oes gennych adran adnoddau dynol neu reolwr personél da?
A fyddai popeth y byddech yn ei ddweud yn gyfrinachol?
Ceisiwch ddod o hyd i'r ateb.

A ydych yn aelod o fudiad staff neu undeb llafur?
Byddant yn cymryd eich cwyn o ddifrif, byddant yn gwybod manylion y ddeddfwriaeth ac yn gwneud dim ond yr hyn yr ydych am iddynt ei wneud.

A yw'n haws siarad gyda dieithryn yn eich Canolfan CAB neu linell gymorth lesbiaidd a hoyw?

Os ddaw hi i'r pen, mae tribiwnlys ar gael, sydd â phwerau i roi arian i chi oddi wrth eich cyflogwr fel iawndal am gamwahaniaethu neu aflonyddu, heb derfyn, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr achos.

A rhag i chi ddychryn, mae hefyd yn anghyfreithlon i gyflogwr eich erlid os ydych yn penderfynu gwneud cwyn swyddogol.

Dylai hynny sicrhau bod pawb yn deall bod camwahaniaethu ar ben.
Am byth.

ACAS
08457 474 747

Cyngor Ar Bopeth (CAB)
www.citizensadvice.org.uk

Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol
www.clsdirect.org.uk
0845 608 1122

Llinell Hawliau TUC
0870 600 4882

Cyngor ar Bopeth Cymru
02920 376 750

Citizens Advice Scotland
www.cas.org.uk
0131 550 1000
ebost info@cas.org.uk

Scottish Employment Rights Network
0131 556 3006

Stonewall
020 7881 9440
www.stonewall.org.uk
Minicom 020 7881 9996

Stonewall Scotland
0131 557 3679

Stonewall Cymru
02920 237 744 / 01248 370082
www.stonewallcymru.org.uk

Cyfarwyddyd Celf Yacht Associates
Ffotograffiaeth Jason Tozer

Stonewall